**COFNODION CYNGOR CYMUNED DYFFRYN ARDUDWY A TALYBONT A GYNHALIWYD YN NEUADD GYMUNEDOL, DYFFRYN ARDUDWY AM 7.30 O'R GLOCH 07.07.15**

**7.1 YMDDIHEURIADAU**
Cyng. Edward Williams, Catrin Edwards.

**7.2 PRESENNOL**
Cyng. Owen Gwilym Thomas (Cadeirydd), Edward Griffiths (Is-Gadeirydd), Geraint Lloyd Wynne, John Ceri Evans, Emrys Jones, Margretta Cartwright, John Ellis Williams, Sian Edwards, Eryl Jones-Williams.

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Lesley Ameson i'r cyfarfod i egluro ynglyn a'r Cyngor yn mynd yn aelod o Cyhoeddusrwydd Bermo. Dangosodd Mrs Ameson rhai o dafleni Cyhoeddusrwydd Bermo sydd wedi cael eu gwneud yn y gorffennol ac eglurodd bod taflen map a llyfr tywys ar gael am 50c a taflen llety aros am ddim ond bod y pwyllgor newydd erbyn hyn wedi penderfynu rhoi y tafleni i gyd at ei gilydd a gwneud un llyfr a hwnnw ar gael am ddim. Datganodd ymhellach bod Cyhoeddusrwydd Bermo wedi penderfynnu hysbysebu o Bontddu, Fairbourne draw i Lanbedr a gofynnodd a fyddai yn bosib i rhywun o Ddyffryn Ardudwy ysgrifennu ychydig am yr ardal er mwyn ei gynnwys yn y daflen ond fyddai yr ardal ddim yn y daflen tan 2016/17. Gofynnywd a fyddai yn bosib i Aelod o'r Cyngor fynd yn aelod o Cyhoeddusrwydd Bermo a dywedodd Mrs Ameson y byddai yn gofyn ynglyn a hyn. Diolchodd y Cadeirydd iddi am ddod atom. Ar ol i Mrs Ameson adael y cyfarfod cytunwyd y byddai y Cyng. Edward Griffiths yn cynrychioli'r Cyngor ar y pwyllgor hwn os byddai caniatad i wneud hynny.

**7.3 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**
Estynwyd longyfarchiadau i'r Cyng. Catrin Edwards a'i gwr ar enedigaeth eu mab bach yn ddiweddar.
Estynwyd longyfarchiadau i'r Cyng. John Ceri Evans ar achlysur priodas ei ferch Lowri yn ddiweddar.
Ar ran y Cyngor dymunwyd wellhad buan i Fam y Cyng. John Ellis Williams a Nain y Cyng. Edward Williams sef Mrs Williams, Llys Gwrtheyrn a oedd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.
Estynwyd longyfarchiadau y Cyngor i Mr. Steffan Chambers ar gael ei ethol yn Lywydd Undeb Myfyrwyr Coleg Meirion Dwyfor a dymunwyd yn dda iddo yn y dyfodol.

**7.4 COFNODION**
Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Mehefin 2il fel rhai cywir.

**7.5 MATERION YN CODI O'R COFNODION**
Ddim materion yn codi o'r cofnodion.

**7.6 DATGAN DIDDORDEB**
Nid oedd neb yn datgan diddordeb ar unrhyw fater.

**7.7 MATERION CYNGOR GWYNEDD**
Adroddodd y Cyng. Eryl Jones Williams ei fod ers y cyfarfod diwethaf wedi mynychu y canlynol:- Mehefin 1af gweithdy torriadau rheoleiddio Porthmadog, 3ydd torriadau teulu a economi Porthmadog, 4ydd craffu addysg, gwasanaethau cymdeithasol Caernarfon, 5ed 10-1 torriadau priffyrdd Porthmadog, 2-4 Fforwm Ardal Meirionnydd, Penrhyndeudraeth, 8ed 10-1 torriadau gwasanaethau cymdeithasol Porthmadog, 6-8 cyfarfod Cynghorau Cymuned ynglyn a torriadau Dolgellau, 9ed Mynediad De Eryri, Dinas Mawddwy, 11eg hyfforddiant Llywodraethwyr Ysgol, Dolgellau, 12ed gwrandawiad trwyddedu Dolgellau, 15ed Cyngor Iechyd Cymunedol Tremadog, 17eg torriadau cyllid Criccieth, 22ain 10-1 trwyddedu Caernarfon, 6-9 cyfarfod heddlu Bermo, 29ain 10-10.30 pubwatch Bermo, 11-1 agoraid 1957 Talybont.
Yn ystod Mehefin 'rwyf wedi mynychu pump seminar ynglyn ar torriadau arfaethedig i wasanaethau gan Cyngor Gwynedd ar angen i fynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus yn mis Medi, mae arbedion yn gorfod cael ei gwneud a fydd gan y cyhoedd gyfle i gael dwued eu barn. Mae Gwynedd wedi gwneud arbedion o £16m yn barod ar rhan nesa

yw £9m allan o'r £13m arfaethedig. Mae rhaid i'r cyhoedd wneud eu barn yn ymwybodol ar eu blaenoriaethau. 'Rwyf hefyd wedi mynychu cyfarfod yn Nolgellau pan gafodd wybodaeth ei roi i gynrychiolwyr o Gynghorau Cymuned ar yr angen i ddod o hyd i arbedion. Mae gan Bermo gynllun peilot o godi tal ychwanegol ar barcio gyda'r arian yn mynd i'r Cyngor Tref. Yn nghyfarfod Fforwm Ardal Meirionnydd gafwyd gyflwyniad ar ddod a tai gwag yn nol i ddefnydd ag 'roedd yn wybodaeth da a 'roedd rhan fwyaf o'r tai gwag sydd wedi cael dod yn nol i ddefnydd yn Meirionnydd, ond mae dal ffordd hir i fynd a mae'r adran wedi ei lleoli yn Nolgellau. Yn hyfforddiant LLywodraethwyr Ysgol cafwyd wybod faint o waith ychwanegol mae rhaid i Lywodraethwyr Ysgol ei wneud ar sail gwirfoddol, a mae mwy o newidiadau wedi eu cynllunio ar gyfer ciriciwlwm yr ysgol. Pwysleiswyd mewn cyfarfod gyda'r Prif Weithredwr Dilwyn Williams bod rhaid i Gynghorau Cymuned drafod gyda'i gilydd. Mae colli gwelau dementia yn Nolgellau, Blaenau Ffestiniog a Pwllheli yn cae effaeith ddrwg ar gleifion dementia gyda teuluoedd yn gorfod teithio i ddod o hyd i gartrefi nyrsio allan o'i cymunedau ac 'rwyf wedi codi y mater sawl gwaith ar yr angen am fwy o welyau yn lleol ag wedi rhoi cwestiwn i lawr i'r Bwrdd Iechyd. 'Roedd ffigyrau trosedd i'r ardal i fyny ychydig gyda trosedd a dwyn, ond yn fach iawn ag ar y cyfan 'roedd ffigyrau trosedd i'r ardal yn dda iawn. Mae yr Heddlu yn gallu trafod materion gyda aelodau o'r cyhoedd yn y neuadd bentref bob pythefnos. Mae gwylio tafarn Bermo wedi ail gychwyn. Mi fychynais agoriad gan Nigel Mansell o bwyty 1957 lle 'roedd y teulu Evans wedi buddsoddi £700,000 yn y bwyty a wedi creu 20 o swyddi. Gall unrhyw fater gael ei ddod i'm sylw ar 01341242758 neu 07796833767 neu e.joneswilliams@btinternet.com neu cynghorydd.eryljoneswilliams@gwynedd.gov.uk
Datganwyd pryder bod y gwaith o ail wynebu y ffordd yn mynd ymlaen a ddim gwybodaeth wedi ei dderbyn gan y Cyngor gan yr Adran Briffyrdd bod hyn yn mynd i gael ei wneud ag hefyd lleiswyd anfodlonrwydd bod y gwaith o'r fath yn cael ei wneud adeg yma o'r flwyddyn. Cytunwyd bod y Clerc yn ysgrifennu at Mr. Adrian Williams yn Nolgellau yn datgan hyn ag hefyd gofyn am gael copi o adroddiad y Peiriannydd ag hefyd gofyn pam bod cyn lleiad o dar wedi cael ei roi i lawr os oedd honiadau bod y ffordd yn suddo.

**7.8 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**Caniatad Adeilad Rhestredig i ychwanegu dau agoriad ffenest a drws yn drychiad deheuol yr estyniad - Taltreuddyn Fawr, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/LB443B)**

Cefnogi y cais hwn.

**Cais ol-weithredol i gadw sied bren - 1 Pant Heulog, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/255B)**

Cefnogi y cais hwn.

**Ceisiadau Cynllunio a penderfyniad arnynt**

Amnewid y siale presennol gyda caban pren i'w defnyddio fel llety gwyliau - The Chalet, tir i gefn Coed y Bachau, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/100C) - caniatau

**7.9 MATERION YN CODI**

**A Cynllun Busnes**

Adroddwyd bod £7,971.07 wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd.

**B Camerau CCTV**

Ddim i'w drafod ar y mater uchod.

**C Neuadd Bentref**

Ddim i'w drafod ar y mater uchod.

**D Archwilio'r llochesi bws, mynwentydd a parciau chwarae**

Adroddodd y Cyng. Emrys Jones ei fod heb wneud yr archwiliad uchod ar ran y Cyngor ac y byddai yn ei wneud erbyn y cyfarfod nesa.

**E Blodau ar y Gofeb**

Yn dilyn trafodaeth blaenorol cytunwyd bod angen rhoi blodau ar yr uchod yn rheolaidd a ddim ond yn mis Tachwedd yn unig. Penderfynwyd cychwyn gwneud hyn mis yma a bod y sawl sydd yn gwneud yr archwiliad misol yn gosod blodau ac anfon y costau i'r Clerc. Dymunodd y Cyng. Margretta Cartwright rhoid blodau yn mis Tachwedd fel arfer a derbyniwyd y cynnig yma.

**F Ethol Cynghorydd**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi rhoi rhybudd i fyny ynglyn ar uchod a bod y dyddiad cau wedi bod ar y 3ydd o'r mis hwn. Adroddodd ymhellach bod un enw wedi ei dderbyn yn datgan diddordeb yn y sedd wag a cytunwyd yn unfrydol i gyfethol Mr. Sion Ifor Williams, Hendre Eirian, Talybont yn Aelod o'r Cyngor.

**G Cyfarfod Her Gwynedd - Dolgellau 8.6.15**

Adroddodd y Cyng. Eryl Jones Williams ei fod wedi mynychu y cyfarfod uchod a bod ddim adroddiad ychwanegol i gael i beth oedd wedi dweud yn ei adroddiad misol.

**H Aelodaeth o Cyhoeddusrwydd Bermo**

Yr item yma wedi cael ei drafod ar y cychwyn.

**7.10 GOHEBIAETH**

**A Cyngor Gwynedd - Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod ynghyd a Gorchymyn yn datgan bod bwriad i gau Ffordd Capel, Dyffryn Ardudwy oherwydd bod angen gwneud gwaith i osod dwythell a chyfarpar o dan y ffordd.

**B Cyngor Gwynedd - Oedolion, Iechyd a Llesiant**

Wedi cael llythyr gan yr uchod yn hysbysu'r Cyngor bod ail strwythuro'r gwasanaeth cofrestru yn Meirionnydd a Dwyfor yn mynd i gymeryd lle ag yn dod i rym ar y 1af o Hydref 2015. Bydd hyn yn golygu o dan y drefn newydd bydd oriau agor swyddfeydd cofrestru Dolgellau a Pwllheli yn agor rhwng 10.00 a 12.00 bob dydd a ni fydd y swyddfeydd yn agored yn y prynhawn.

**C Parc Cenedlaethol Eryri**

Wedi cael ateb gan Mr. Edward Jones, Pennaeth Gwasanaeth Eiddo y Parc Cenedlaethol ynglyn a maes parcioTraeth Bennar ag yn datgan ei fod wedi trafod cais y Cyngor i ail gysidro eu penderfyniad i godi tal ar fobl lleol i barcio yn y maes parcio hwn yng nghyfarfod y Tim Rheoli a bod y Swyddogion ddim mewn sefyllfa i newid penderfyniad a gafodd ei wneud gan yr Awdurdod yn dilyn pleidlais. Hefyd yn datgan bod y tir dan sylw ddim wedi cael ei roi yn rodd i'r gymuned gan Proffesor Whitfield ag ei fod wedi cael ei werthu i'r cyn Gyngor Dosbarth cyn dod i berchnogaeth yr Awdurdod yn sgil ad-drefnu Llywodraeth leol yn 1996 a nid oes amodau parthed defnydd na breintiau i'r trigolion, dim ond amod fod y tir yn parhau ar agor i ddefnydd y cyhoedd. Mae y Tim Rheloi wedi penderfynnu gweld a oes gan y Cyngor Cymuned hwn ddiddordeb i'r holl eiddo yn Morfa Dyffryn gael ei drosglwyddo iddynt ynghyd a gofalaeth y maes parcio, toiledau a'r rhodfeydd pren. Os byddai gan y Cyngor Cymuned ddiddordeb byddai modd trosglwyddo staff glanhau i'n gofal hefyd yn unol a gofynion TUPE. Felly i agor y drafodaeth mae Mr. Jones yn gofyn a fyddai'r Cyngor Cymuned hwn yn ystyried derbyn rheolaeth o'r safle fel a nodwyd uchod. Cytunwyd gofyn am manylion y costau ynghlwm ar uchod cyn gwneud penderfyniad.

**D Edwina Hart A.C**

Wedi cael ateb gan yr uchod ynglyn a pam nad yw'r tren 8.00 o gloch nos ddim yn galw ymhob gorsaf ar lein y Cambrian ag yn datgan nid yw hyn yn bosib rhag creu gwrthdaro yn yr amserlen ond ar ddeall bod Trenau Arriva Cymru'n ymchwilio i'r gofidiau ynghylch y newid diweddar i'r amserlen ag bod ei Swyddogion yn parhau i weithio gyda nhw i weld pa welliannau y gellid eu gwneud.

**E Eisteddfod Ardudwy**

Wedi derbyn llythyr o ddiolch gan y mudiad uchod am y cyfraniad ariannol a gawsant gan y Cyngor yn ddiweddar.

**F Cyngor Gwynedd - Adran Rheoleiddio**

Wedi cael llythyr gan yr uchod ynglyn a cyflwyno a diddymu Cyfyngiadau Parcio mewn mannau yn y pentref ag yn datgan bod gan y Cyngor 28 diwrnod i roi sylwadau i hyn.

**G Pwyllgor Apel Cylch Ardudwy Siore Frenhinol Cymru - Meirionnydd 2016**

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at yr achos uchod. Cytunwyd ei drafod gyda gweddill y ceisiadau yn mis Hydref.

**7.11 ADRODDIAD Y TRYSORYDD**

Adroddodd y Trysorydd bod £10,747.95 yn y cyfrif rhedegol, £1,318.82 yng nghyfrif y cae chwarae,£7,533.79 yn y cyfrif wrth gefn a £8.00 yng nghyfrif y Cadeirydd.

**Anfonebau angen eu talu ers y cyfarfod diwethaf**

| | | |
|---|---|---|
| Mr. Dewi Evans | - | £60.00 - edrych ar ol y ddau barc chwarae |
| Mrs Annwen Hughes | - | £147.00 (cyflog) + £158.19 costau = £305.19 |
| Cyllid a Thollad | - | £110.20 - treth cyflog y Clerc |
| Hacker Young | - | £246.00 - archwiliad allanol |
| Mr. G. J. Williams | - | £88.00 - blodau a tail yn potiau ger toiledau Talybont |
| Mr. Gary Martayn | - | £860.00 - torri gwair |
| Mr. Matt Morlow | - | £68.00 - trwsio y lloches bws |

**Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf**

Ddim wedi dod i law ers y cyfarfod diwethaf

**7.12 UNRHYW FATER ARALL**

Adroddodd y Cyng. Edward Griffiths bod yr eglwys wedi gofyn iddo osod ffens o amgylch y wal beryg sydd ger y ty yn mynwent Llanddwywe.

Eisiau tacluso yr arwyddion o amgylch y neuadd a cytunwyd gwneud hyn ag hefyd gwneud ymholiadau i weld pryd byddai yr arwydd newydd yn cael ei osod.

Datganwyd pryder bod y caban sydd wedi ei osod yn iard y neuadd yn rhy agos i fynedfa un o'r drysau tan a cytunodd pwyllgor y neuadd edrych i mewn i hyn.

Cafwyd wybod bod un o breswylwyr Ffordd y Gors wedi tacluso peth o'r gordyfiant sydd yn bodoli arni.

**ARWYDDWYD...............................................................Cadeirydd**

**DYDDIAD......................................................................**